



Comisiwn Ffiniau  
i Gymru

Boundary Commission  
for Wales

## **Arolwg Etholaethau Seneddol 2023**

### **Adroddiad Cynnydd Cymru**

Ionawr 2022

# **Comisiwn Ffiniau i Gymru**

## **Arolwg Etholaethau Seneddol 2023 Cymru**

### **Adroddiad ar gynnydd yn ystod 2021**

Fe'i cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 3(2C)  
Deddf Etholaethau Seneddol 1986, fel y'i diwygiwyd gan  
Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 a Deddf Etholaethau  
Seneddol 2020.

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3> neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch neges e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.comffin-cymru.gov.uk](http://www.comffin-cymru.gov.uk)

Dylai unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn gael eu hanfon atom yn y cyfeiriad canlynol:

Comisiwn Ffiniau i Gymru  
Llawr Gwaelod  
Tŷ Hastings  
Llys Fitzalan  
Caerdydd  
CF24 0BL.

E-bost: [cffg@ffiniau.cymru](mailto:cffg@ffiniau.cymru)

**Y Llefarydd  
Tŷ'r Cyffredin  
Llundain  
SW1A 0AA**

**27 Ionawr 2022**

**Annwyl Mr Gadeirydd**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r adroddiad hwn, fel sy'n ofynnol gan adran 3(2B) Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 a Deddf Etholaethau Seneddol 2020), y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y Ddeddf', yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ("y Comisiwn") wedi'i wneud wrth baratoi'r arolwg o ffiniau sydd i'w gyflwyno cyn 1 Gorffennaf 2023. Fel y gwyddoch, mae adran 3(2C) yn mynnu eich bod yn cyflwyno ein hadroddiad gerbron y Senedd.

**Dechrau'r arolwg**

2. Ar 5 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Comisiwn ddechrau Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru a chyhoeddodd gyfanswm nifer yr etholwyr yn y Deyrnas Unedig, y cwota etholiadol a'r dyraniad etholaethau i Gymru. Ar gyfer Arolwg 2023, y dyraniad ar gyfer Cymru yw 32, gan gynnwys etholaeth warchoddedig Ynys Môn.
3. Cyhoeddodd y Comisiwn ei 'Ganllaw i Arolwg 2023' yn Gymraeg a Saesneg ar 17 Mawrth 2021, a oedd yn cynnwys y polisiau a'r gweithdrefnau ar gyfer yr arolwg. Er mwyn gwella hygyrchedd i waith y Comisiwn, cyhoeddwyd fersiwn hawdd ei darllen hefyd, yn ogystal â chyfieithiad o'r canllaw mewn Iaith Arwyddion Prydain.

**Cyfarfodydd cychwynnol a gynhaliwyd â rhanddeiliaid**

4. Yn yr un modd ag Arolygon Seneddol blaenorol, cynhaliodd y Comisiwn gyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 1 Mawrth 2021 â phleidiau gwleidyddol a oedd yn cael eu cynrychioli yn Senedd y Deyrnas Unedig neu Senedd Cymru, ac fe'i dilynwyd gan gyfarfod â phartïon â buddiant ar 5 Mawrth 2021. Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol olaf ar 8 Mawrth 2021 ag Aelodau Seneddol. Mae cofnodion y tri chyfarfod ar gael ar wefan y Comisiwn.

**Recriwtio Comisiynwyr Cynorthwyol**

5. Ym mis Mehefin 2021, dechreuodd y Comisiwn ei ymgyrch recriwtio ar gyfer Comisiynwyr Cynorthwyol i helpu â gwaith y Comisiwn. Cafodd y Comisiwn 14 o geisiadau a rhoddwyd saith ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad. Cyfwelwyd yr holl ymgeiswyr ar y rhestr fer gan banel a oedd yn cynnwys un o'r Comisiynwyr (Huw Vaughan Thomas CBE), Ysgrifennydd

y Comisiwn (Shereen Williams MBE) ac aelod annibynnol (y Fonesig Claire Clancy DCB DL), ac ar ôl cael cytundeb y Comisiynwyr eraill, argymhellodd y panel bedwar unigolyn i'r Llywodraeth i'w penodi. Derbyniwyd pob un ohonynt.

### **Porth Ymgynghori**

6. Yn arwain at gyhoeddi'r cynigion cychwynnol, datblygodd y Comisiwn borth ymgynghori ar-lein gyda'r Comisiwn Ffiniau i Loegr a'r Comisiwn Ffiniau i'r Alban. Aeth y porth hwn yn fyw yng Nghymru ar yr un diwrnod y cyhoeddwyd y cynigion cychwynnol. Cyflwynwyd mwyafrif y cynrychiolaethau a gafodd y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol trwy'r porth.

### **Cynigion cychwynnol a chyfnod ymgynghori**

7. Cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion cychwynnol ar 8 Medi 2021 a chynhaliodd gyfnod ymgynghori 8 wythnos a ddaeth i ben ar 3 Tachwedd 2021. Rhoddwyd copi gwaharddedig o'r adroddiad i bleidiau gwleidyddol ac Aelodau Seneddol ar 7 Medi 2021.
8. Cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo helaeth a oedd yn cynnwys sylw yn y wasg, hysbysebion ar fysiau, hysbysebion digidol a chyfryngau cymdeithasol. Cafodd y Comisiwn 1,211 o gynrychiolaethau ysgrifenedig o ganlyniad i hyn. Dyma'r nifer uchaf o gynrychiolaethau y mae'r Comisiwn erioed wedi'u derbyn ar gyfer Arolwg Etholaethol.
9. Cafodd cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn ar 17 Rhagfyr 2021.

### **Ail gyfnod ymgynghori a gwrandawriadau cyhoeddus**

10. Cyn y gwrandawriadau cyhoeddus, cyhoeddodd y Comisiwn 'Ganllaw i'r Gwrandawriadau Cyhoeddus' i ddarparu gwybodaeth am fformat y gwrandawriadau yn ogystal â'r broses o neilltuo slot siarad. Roedd y Comisiwn yn bwriadu cynnal yr ail gyfnod ymgynghori o 11 Ionawr 2022 tan 21 Chwefror 2022. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, bwriad y Comisiwn oedd cynnal pum gwrandawriad cyhoeddus yn Aberystwyth, Bangor, Wrecsam, Abertawe, a Chaerdydd.
11. Yn anffodus, o ganlyniad i'r heriau iechyd cyhoeddus parhaus sy'n deillio o'r amrywiolyn Omicron, mae'r Comisiwn bellach wedi gohirio dechrau'r ail gyfnod ymgynghori tan 17 Chwefror 2022 ac fe ddaw i ben ar 30 Mawrth 2022. Bydd y pum gwrandawriad cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod hwn ac er bod rhaid rhoi tystiolaeth yn bersonol, bydd y gwrandawriadau cyhoeddus yn cael eu ffrydio'n fyw.

## **Camau Nesaf**

12. Bydd y cynrychiolaethau a gaiff y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried gan y Comisiynwyr Cynorthwyol a fydd yn gwneud argymhellion i'r Comisiwn ynglŷn â sut y gallai ddiwygio ei gynigion.
13. Yna, bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol ac yn ystyried newidiadau i'r cynigion cychwynnol. Os yw'n briodol, bydd y Comisiwn yn cyhoeddi cynigion diwygiedig ac yn agor cyfnod ymgynghori ar y cynigion hynny.
14. Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynrychiolaethau a gyflwynwyd ynglŷn â'i gynigion diwygiedig ac yn penderfynu p'un a ddylid gwneud unrhyw newidiadau ychwanegol. Mae'r Comisiwn yn hyderus y bydd mewn sefyllfa i gyhoeddi argymhellion terfynol cyn y dyddiad terfyn statudol, sef cyn 1 Gorffennaf 2023.

**Mrs Ustus Jefford DBE**  
**Dirprwy Gadeirydd**

**Mr Huw Vaughan Thomas CBE**  
**Comisiynydd**

**Mr Sam Hartley**  
**Comisiynydd**

**Mrs Shereen Williams MBE OStJ DL**  
**Ysgrifennydd**